GWYBODAETH TECHNEGOL A DIOGELWCH AR GYFER CLYBIAU FFERMWYR IFANC 2024

PWYSIG – A wnewch chi sicrhau bod y canllawiau yma'n cael ei trosglwyddo i'ch cyfarwyddwr/cynhyrchydd yn syth os gwelwch yn dda. Disgwylir i BOB clwb gysylltu gyda'r technegwyr cyn yr wythnos gystadlu.

Dyddiad cau ar gyfer cysylltu parthed unrhyw anghenion llwyfannu, sain a goleuo yw 12:30 o'r gloch, dydd Gwener 9fed o Chwefror. Bydd cyfle i glybiau ymweld a'r theatr rhwng y 5ed a'r 9fed o Chwefror.
Yr amserau bydd ar gael yw:
5ed: 13:45-14:30; 14:45-15:30
6ed, 7fed a'r 8fed: 10:45-11:30; 11:45-12:30; 13:45-14:30; 14:45-15:30
9fed: 10:45-11:30; 11:45-12:30
Cysylltwch gyda Dylan Williams i drefnu apwyntiad.

Llwyfan

Lled y llwyfan wrth y prif lenni – 30'0" / 9.14m
Lled rhwng y llenni duon wrth ymyl y llwyfan (legs) – 23'8" / 7.22m
Dyfnder o flaen y prif lenni (apron) – 6'6" / 1.98m
Dyfnder tu ôl y prif lenni – 11'6" / 3.4m neu 18'6" / 5.64m

Darperir llenni du fel cefnlen oni threfnir yn wahanol. Ni chaniateir cysylltu (gludo/gwnio/staplo) unrhywbeth i'r llenni du.

Os defnyddir cefnlen yn hytrach na llenni du, un gefnlen i bob clwb a ganiateir, a rhaid i'r gefnlen fod wedi'i thrin i wrthsefyll tân, a rhaid iddi fod yn y theatr ar gyfer ei gosod cyn 2 o'r gloch ar ddyddiad eich perfformiad. Staff y theatr yn unig a ganiateir i osod y gefnlen, ac ni fydd yn rhan o amser gosod a thynnu unrhyw gynhyrchiad. Mae'r un yn wir am osod y piano, ac unrhyw offer trydanol.

Goleuo

Darperir golau cyffredinol cynnes ac oeraidd.
Gellir darparu goleuadau arbennig eraill trwy drefniant ymlaen llaw cyn y dyddiad a nodir uchod.

Offer Clyweled

Ni fydd y theatr yn darparu unrhyw offer taflunio. Os ydych yn bwriadu defnyddio offer eich hunain, mi fydd modd cysylltu i'r system sain.

Sain

Meic radio llaw (2). Ni fydd unrhyw feicroffonau eraill ar gyfer lleisiau.
Rydym yn defnyddio rhaglen gyfrifiadurol (Qlab) i chwarae pob effaith sain. Y fformatiau sy'n dderbyniol yw .wav, .aiff a .m4a. Nid yw .mp3 nac .wma yn dderbyniol. Disgwylir i'ch effeithiau sain, ynghyd a'r drefn, i fod gyda'r staff technegol o leiaf 24 awr cyn eich perfformiad. Medrwch ebostio'r effeithiau i'r staff. Cysylltwch am ragor o fanylion.

SYLWER: Ni allwn chwarae cryno ddisgiau na thapiau caset ar gyfer unrhyw effeithiau sain. Bydd angen i bob clwb ddarparu eu heffeithiau sain eu hunain.

Staffio

Darperir un technegydd goleuo, un technegydd sain, a dau aelod o staff y theatr ar y llwyfan.
Disgwylir i'r clybiau redeg y sioe (ciwio) o'r ystafell reoli yng nghefn yr awditoriwm.
Ni fydd staff y theatr yn dilyn sgriptiau.
Mi fydd gan y person sy'n rhedeg y sioe gysylltiad â'r staff theatr ar lwyfan drwy ein system 'cans' (clustfeinion a meic)
Mae bob aelod o staff y theatr yn ddwyieithog.

Iechyd a Diogelwch

Gofynnir i bob clwb dderbyn pob cyfarwyddyd oddi wrth staff y theatr parthed materion iechyd a diogelwch.
Rhaid cael caniatad criw technegol y theatr i ddefnyddio unrhyw offer trydanol nad sy'n perthyn i'r theatr. Bydd angen bod prawf PAT cyfredol gan bob darn o offer trydanol. Mae gan y criw technegol yr hawl i wrthod defnydd o unrhyw offer a ystyrir yn beryglus.
Ni chaniateir unrhyw ddefnydd neu offer a allai arwain at berygl tân e.e. gwellt, gwair, canhwyllau, sigarennau ffug a.y.y.b.
Ni chaniateir taflu dŵr, bwydydd na phowdwr ar y llwyfan.
Mae penderfyniadau technegol staff y theatr yn derfynol.

Mi fydd pob clwb yn cael slot o awr ar ddiwrnod eich perfformiad i ddod mewn a'r set, ei osod, ei farcio, ei oleuo ac yna ei osod yn daclus yng nghefn y llwyfan. Gofynnir i chi beidio dod a mwy o bobl nag sydd eu hangen ar gyfer hyn. NI CHANIATEIR YMARFER YN YSTOD YR AWR HON. Medrwch drefnu eich amser 'get-in' yn ystod eich cyfarfod technegol. Disgwylir i bob clwb i gysylltu â'r theatr, hyd yn oed os nad ydych angen unrhyw gyngor.
Am fanylion pellach, cysylltwch â Dylan Williams (01570 470697) neu e-bostiwch Dylan.Williams@ceredigion.gov.uk